# Y Gymraeg Mewn Arfer Proffesiynol (ECAD6022-C) 2025-26

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 10 ac 11
22ain o Ionawr 2026
Mwy o gwestiynau  a datblygu sgiliau llafar yn y dosbarth

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Allwedd:


Drilio


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Tasg wrando


Gwaith pâr


Grŵp o dri


Gwaith grŵp


Amser canu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Tasg ysgrifennu


Tasg ddarllen


Help llaw


Tystiolaeth i'r Portffolio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes ymarfer amser cinio? | Ydy Sali yn yr ysgol heddiw? | Wyt ti'n fodlon darllen gyda fi? | Wnest ti orffen dy waith cartref? |
| Oedd hi'n dawel iawn yn y wers? | Fyddi di'n mynd i'r Eisteddfod? | Dafydd enillodd y ras? | Ga i fenthyg pensil? |
| Ydych chi wedi cwblhau'r dasg? | Gawn ni chwarae nawr? | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nac oes | Ydy | Ydw | Naddo |
| Oedd | Na fyddaf | Nage | Cei |
| Ydyn | Na chewch | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes ymarfer amser cinio?<br><br>Nac oes | Ydy Sali yn yr ysgol heddiw?<br><br>Ydy | Wyt ti’n fodlon darllen gyda fi?<br><br>Ydw | Wnest ti orffen dy waith cartref?<br><br>Naddo |
| Oedd hi’n dawel iawn yn y wers?<br><br>Oedd | Fyddi di’n mynd i’r Eisteddfod?<br><br>Na fyddaf | Dafydd enillodd y ras?<br><br>Nage | Ga i fenthyg pensil?<br><br>Cei |
| Ydych chi wedi cwblhau’r dasg?<br><br>Ydyn | Gawn ni chwarae nawr?<br><br>Na chewch | | |

**Mwy o gwestiynau caeëdig.**

Fel arfer bydd ateb byr a phenodol ar gyfer y cwestiynau hyn.

Beth?

Pa?

Pwy?

Faint?

# Beth ydych chi'n sylwi arno?

**Pa + enw = Treiglad Meddal**

Pa gamau wnest ti eu dilyn?

Pa liw hoffet ti?

**Pa + enw + berf = Treiglad Meddal**

Pa lyfrau ddarllenaist ti?

**Pwy + berf = Treiglad Meddal**

Pwy welodd .......?

**Faint + berf = Treiglad Meddal**

Faint dalon nhw...?

Pa liw ydy'r cylch?

Pwy wnaeth y gwaith arbennig hwn?

Faint o bobl welodd y gêm yn y Stadiwm?

Faint fyddai dau afal a dwy oren?

# Y tabl treiglo

| Llythyren cyn treiglo | Treiglad meddal | Treiglad trwynol | Treiglad llaes |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | - | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

# Y treiglad meddal

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| p | t | c | b | d | g | ll | m | rh |
| ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ |
| b | d | g | f | dd | - | l | f | r |

# Sawl neu faint, beth ydy'r gwahaniaeth?

## Sawl?

Defnyddio gydag enw **unigol** yn unig.

Sawl **disgybl** sydd yn y dosbarth?
Sawl **cwestiwn** sydd yn y prawf?

Sawl llyfrau sydd yn y pentwr?

## Faint?

Defnyddio gydag enwau **lluosog** ar ôl yr arddodiad 'o'. Cofiwch am y treiglad meddal ar ôl 'o'.

Faint o **lyfrau** sydd ar y bwrdd?
Faint o **bobl** sy'n byw yn Abertawe?

Faint o gadair sydd yn y dosbarth?

# Sawl neu faint?



1. Faint________ o waith cartref sydd gyda ti?

2. Sawl_________ dosbarth sy'n mynd i'r gwasanaeth?

3. Sawl__________ enghraifft sydd ar y daflen?

4. Faint__________ fyddai tri lluosi â chwech?

5. Sawl__________ disgybl sy'n mynd ar y daith i Wlad Belg?

# Cwestiynau agored …

Bydd cwestiynau agored yn caniatáu amrywiaeth o atebion.
Byddan nhw’n dechrau gyda’r geiriau gofynnol hyn …

**Pa …?**

**Sut …?**

**Ble …?**

**Beth …?**

**Pwy …?**

**Faint ..?**

**Pryd …?**

**Pam …?**

Sut?

**Cwestiynau agored.**

Mae nifer o atebion i gwestiynau agored.

Pryd?

Beth?

Pam?

# Sylwch ar y treigladau!



1. Sut + enw = **Treiglad Meddal**

   Enghraifft: Sut **dd**illad oedd gan y tywysog?

2. Sut + berf = **DIM**

   Enghraifft: Sut **c**awsoch yr ateb?

3. **Tasg**: Meddyliwch am **ddau** gwestiwn yn dechrau gyda ‘Sut’...

# Cwestiynau agored …

Pa lun sydd yn fwy clir?

Sut Frenhines oedd hi?

Pwy fydd yn ennill?

Pa gân ganaist ti?

Sut dest ti i'r ysgol?

Faint daloch chi?

Pa un ddewisoch chi?

Ble byddwch chi'n cystadlu?

Pryd gwelaist ti'r gêm?

Beth ddywedodd y rhiant?

Pam gwnest ti hynny?

# Pa dreiglad?

| **Rhagenw Gofynnol** | **Treiglad** | **Enghraifft** |
|---|---|---|
| Sut + berf | | |
| Sut + enw | | |
| Pryd + berf | | |
| Ble + berf | | |
| Beth + berf | | |
| Pwy + berf | | |
| Pa + enw | | |
| Pa + enw+ berf | | |
| Pa un + berf | | |
| Faint + Berf | | |
| Pam | | |

Meddyliwch am
Faes Dysgu a
Phrofiad penodol

# Atebion.

| Rhagenw Gofynnol | Treiglad | Enghraifft |
| --- | --- | --- |
| Sut+ berf | Dim | |
| Sut + enw | Treiglad meddal | |
| Pryd + berf | Dim | |
| Ble + berf | Dim | |
| Beth + berf | Treiglad meddal | |
| Pwy + berf | Treiglad meddal | |
| Pa + enw | Treiglad meddal | |
| Pa + enw+ berf | Treiglad meddal | |
| Pa un + berf | Treiglad meddal | |
| Faint + Berf | Treiglad meddal | |
| Pam | Dim | |

# Pwyntiau i'w cofio.



- Bydd cwestiynau sy'n dechrau gydag 'Oes…?', cwestiynau pwysleisiol a chwestiynau yn y gorffennol, yn gofyn am 2 ateb posib – Oes/Nac Oes, Ie/Nage, neu Do/Naddo. Does dim ots at bwy mae'r cwestiwn yn cyfeirio.
- Mae gwahaniaeth rhwng 'oes' ac 'ydy' ar ddechrau cwestiwn – mae un yn benodol (ydy), a'r llall yn amhenodol (oes).
- Pan fydd berf ar y dechrau 'Ydy / Fydd / Oedd', bydd rhaid i'r ateb gyfateb i'r person hefyd.
- Gyda chwestiynau sy'n dechrau gyda 'Sut, Beth, Pwy, Pa, Faint' – efallai bydd angen treiglo! Byddwch yn ofalus a chyfeiriwch at y tabl i'ch helpu!
- Cofiwch: Sawl + unigol?, OND Faint + o + lluosog (a threiglad meddal)?

# Yn y dosbarth … beth am ddefnyddio llun fel sbardun

Pa gwestiynau fyddech chi'n gallu eu gofyn i'r disgyblion?



Sut byddech chi'n annog disgyblion i ofyn cwestiynau?

# Yn y dosbarth … defnyddio llun fel sbardun



Pa gwestiynau fyddech chi'n gallu eu gofyn i'r disgyblion?

Sut byddech chi'n annog disgyblion i ofyn cwestiynau?



**MUNUD I FEDDWL:**
A oes modd datblygu sgiliau ysgrifennu?

# Ping pong neu bêl-rwyd?

Meddyliwch am ddatblygu sgiliau cwestiynu fel dwy gêm.  Ar y dechrau rydych chi am ddysgu'r patrymau cywir iddyn nhw drwy ddarparu cyfleoedd i atgyfnerthu patrymau holi ac ateb (ping pong).  Yn y pendraw, rydych chi am annog disgyblion i ateb ei gilydd yn gywir a chwestiynu ei gilydd hefyd (pêl-rwyd).



# Cwestiynu effeithiol



## Sut mae cwestiynu yn effeithiol yn y dosbarth ?

Pyramid cwestiynu
*Bloom's Taxonomy*




Gallwch ddefnyddio Bloom's Taxonomy i bennu pa fath o gwestiwn i'w ddatblygu, yn ogystal â sut i'w eirio. Yn y system ddosbarthu hon, mae'r lefel lleiaf cymhleth, adalw gwybodaeth, yn preswylio ar waelod y pyramid fel sylfaen gwybodaeth. Ar y brig, mae gwerthusiad, synthesis, a dadansoddiad angen y meddwl mwyaf cymhleth a haniaethol. Mae trafodaethau, ynghyd ag aseiniadau creadigol a gwaith grŵp, ar gyfer meddwl uwch.

# Llafaredd yn dosbarth – Cam cynnydd 1

| LLythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm | | Cam cynnydd 1 | |
|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • mynegi mwynhad neu ddiddordeb<br>• trafod llun, modelau a gweithrediadau mewn termau syml<br>• ail-adrodd digwyddiad neu brofiad mewn termau syml<br>• siarad yn ddigon clir i gael eu deall gan oedolion a chyfoedion<br>• dynwared bywyd go iawn a phrofiadau dychmygol o fewn gweithgaredd chwarae rôl<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau trwy hwiangerddi a chaneuon | • mynegi beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau<br>• siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth<br>• defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml<br>• siarad yn glywadwy<br>• cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, *e.e. dau gi, y gath* |
| | **Gwrando** | • gwrando ac ymateb â sylw a chanolbwyntio cynyddol<br>• gwrando ac ymuno â chaneuon, rhigymau a storïau<br>• ailadrodd stori neu wybodaeth y maent wedi'i glywed mewn termau syml<br>• gofyn cwestiwn priodol am rywbeth sydd wedi'i ddweud | • dangos eu bod wedi gwrando ar eraill, *e.e. wrth dynnu llun*<br>• ymuno wrth adrodd/canu rhigymau, caneuon a storïau, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth<br>• gofyn cwestiynau am rywbeth a ddywedwyd |
| | **Cydweithio a thrafod** | • cymryd rhan mewn trafodaeth gyda phlant a/neu oedolion<br>• cymryd rhan gydag eraill mewn gweithgareddau. | • cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, *e.e. gyda ffrindiau*<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio. |

# Llafaredd yn dosbarth – Cam Cynnydd 2

| LLythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm | | Cam cynnydd 2 | | |
|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • mynegi barn ar bynciau cyfarwydd<br>• siarad am bethau y maent wedi'u llunio neu wedi'u gwneud, gan esbonio'r broses<br>• cynnwys rhai manylion a rhywfaint o eirfa berthnasol i ymhelaethu ar eu syniadau neu eu hadroddiadau<br>• siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i wrandawyr sydd y tu hwnt i'w grŵp cyfeillion<br>• mabwysiadu rôl gan ddefnyddio iaith briodol<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, *e.e. y ferch* | • mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau<br>• ymestyn eu syniadau neu eu hadroddiadau gan drefnu'r hyn y maent yn ei ddweud a chynnwys manylion perthnasol<br>• siarad yn eglur ag ystod o gynulleidfaoedd<br>• mabwysiadu rôl benodol, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig<br>• defnyddio ambell dreiglad y maent wedi ei ymarfer ar lafar, *e.e. y bêl, fy mag, i'r dref* | • esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol<br>• trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, *e.e. pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn*<br>• siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr<br>• defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, *e.e. yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio ti/chi)*<br>• cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl<br>• defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir fel arfer, *e.e. ar ben* |
| | **Gwrando** | • gwrando ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, *e.e. dilyn cyfarwyddiadau'n gywir*<br>• ymuno wrth adrodd/canu amrywiaeth o rigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof<br>• ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed<br>• dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth<br>• ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir fel arfer, *e.e. Oes? Oes/Nac oes* | • gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen<br>• ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir<br>• dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol<br>• ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, *e.e. Ydy? Ydy/Nac ydy* | • gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod<br>• gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol |
| | **Cydweithio a thrafod** | • cyfrannu i sgyrsiau ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o'u hysgogi<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud. | • cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad<br>• rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg. | • cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp. |

https://hwb.gov.wales/api/storage/494f1709-2e35-403b-81c5-29e02e897b5b/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-taenlen-llythrennedd-llafaredd-ar-draws-y-cwricwlwm-cwricwlwm-2022.pdf

# Syniadau ar gyfer datblygu sgiliau llafaredd y dysgwyr yn y dosbarth?



*Sbardun  a strwythur*



# Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Grŵp o dri



Gwaith pâr



Tasg ysgrifennu



Drilio



Help llaw

# Da iawn chi!

Cymraeg

# Daliwch ati!